OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2008 Rhif 1480 (Cy.153)

# Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

## Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Treuliau Teithio a Pheidio â Chodi Tâl) (Cymru) (Diwygio) 2008

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *9 Mehefin 2008* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *10 Mehefin 2008* |
| *Yn dod i rym - -* | *1 Gorffennaf 2008* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 130 a 131, 132 a 203(9) a (10) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(**1**) drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

### Enwi, cychwyn, dehongli a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Treuliau Teithio a Pheidio â Chodi Tâl) (Cymru) (Diwygio) 2008.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 1 Gorffennaf 2008.

(3) Yn y Rheoliadau hyn—

(a) ystyr "y prif Reoliadau" ("*the principal Regulations*") yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Treuliau Teithio a Pheidio â Chodi Tâl) (Cymru) 2007(**2**); a

(b) ystyr "y Rheoliadau Cymhorthdal Incwm" ("*the Income Support Regulations*") yw Rheoliadau Cymhorthdal Incwm (Cyffredinol) 1987(**3**).

(4) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

### Addasu'r Rheoliadau Cymhorthdal Incwm yn Atodlen 1 i'r prif Reoliadau

**2.**—(1) Mae Atodlen 1 i'r prif Reoliadau (Addasu Rheoliadau Cymhorthdal Incwm (Cyffredinol) 1987) wedi'i diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn Nhabl A, yn lle'r addasiad i reoliad 45 o'r Rheoliadau Cymhorthdal Incwm (Terfyn Cyfalaf), rhodder—

"Yn lle'r rheoliad hwn rhodder—

(**1**) 2006 p.42. *Gweler* adran 206(1) i gael y diffiniad o "*prescribed*" a "*regulations*".
(**2**) O.S. 2007/1104 (Cy.116).
(**3**) O.S. 1987/1967.

"**Capital Limit**

**45** For the purposes of regulations 5(2)(e) and 6(1)(a) of the National Health Service (Travelling Expenses and Remission of Charges) (Wales) Regulations 2007 the capital limit is—

(a) for a claimant permanently residing in accommodation as defined in regulation 19A– £22,000;

(b) in any other case–£16,000.".".

(3) Yn Nhabl A, yn yr addasiad i reoliad 53 o'r Rheoliadau Cymhorthdal Incwm, yn lle "(a) until 8 April 2007 £16,000; (b) from 9 April 2007 £17,250" rhodder "£19,000".

(4) Yn Nhabl A, yn yr addasiadau i reoliad 66A o'r Rheoliadau Cymhorthdal Incwm (trin benthyciadau i fyfyrwyr), yn lle'r cofnod cyntaf, rhodder—

"Yn lle paragraff (1), rhodder—

"(1) A student loan must be treated as income unless it is—

(a) a hardship loan; or

(b) an additional loan, as described in the Guide to Student Support issued by the Student Awards Agency for Scotland 2007-2008(**4**), paid pursuant to an application for a loan under regulation 5(1) or (9) of the Education (Student Loans) (Scotland) Regulations 2007 (applications for loans)(**5**),

in which case it will be disregarded.".".

(5) Yn Nhabl A, yn yr addasiadau i Atodlen 9 i'r Rheoliadau Cymhorthdal Incwm (symiau i'w diystyru wrth gyfrifo incwm heblaw enillion) yn lle'r cofnod cyntaf rhodder—

"Ym mharagraff 15(1) yn lle "sub-paragraph (3)" rhodder "sub-paragraphs (1A), (1B) and (3)".

Mewnosoder ar ôl paragraff 15(1)—

"(1A) In respect of a voluntary payment made to a student, sub-paragraph (1) will only apply to £20 of that payment.

(1B) The total amount disregarded in respect of voluntary payments to a student under sub-paragraph (1) may not exceed £20 per week.

(1C) In sub-paragraphs (1A) and (1B) "student" has the meaning given in regulation 61(1).".".

*Edwina Hart*
Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

9 Mehefin 2008

(**4**) Mae'r Canllawiau ar gael ar wefan Asiantaeth Dyfarndaliadau Myfyrwyr yr Alban yn http://www.saas.gov.uk
(**5**) O.S.A. 2007/154.

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Treuliau Teithio a Pheidio â Chodi Tâl) (Cymru) 2007 ("y prif Reoliadau").

Wrth gyfrifo adnoddau a gofynion person o dan y prif Reoliadau er mwyn canfod a oes gan berson hawl i beidio â thalu taliadau GIG a thalu treuliau teithio GIG, defnyddir fersiwn addasedig o Reoliadau Cymhorthdal Incwm (Cyffredinol) 1987 ("y Rheoliadau Cymhorthdal Incwm").

Mae'r Rheoliadau hyn yn addasu Atodlen 1 i'r prif Reoliadau yn y dulliau a ganlyn:

**1.** Maent yn darparu y bydd unrhyw fenthyciad ychwanegol, y nodir y cymhwystra ar ei gyfer yn y "Student Support in Scotland Guide" a gyhoeddir gan Asiantaeth Dyfarndaliadau Myfyrwyr yr Alban ac a delir o dan Reoliadau Addysg (Benthyciadau i Fyfyrwyr) (Yr Alban) 2007, yn cael ei ddiystyru wrth gyfrifo incwm benthyciad i fyfyriwr. (Rheoliad 2(4)).

**2.** Maent yn darparu mai dim ond £20 o daliad gwirfoddol a wneir i fyfyriwr sydd i'w ddiystyru wrth gyfrifo incwm y myfyriwr hwnnw. Uchafswm y taliadau gwirfoddol i fyfyriwr y gellir ei ddiystyru yw £20 yr wythnos (Rheoliad 2(5). Mae'r prif Reoliadau eisoes yn addasu ystyr "taliad gwirfoddol" er mwyn eithrio taliadau penodol a wneir i fyfyrwyr (gweler y cofnod yn rheoliad 65 yn Nhabl A yn Atodlen 1 i'r prif Reoliadau).

**3.** Maent yn gosod cofnod newydd yn lle'r addasiad o reoliad 45 o'r Rheoliadau Cymhorthdal Incwm (terfyn cyfalaf) (Rheoliad 2(2)) ac yn diwygio'r cofnod ar gyfer addasu rheoliad 53 o'r Rheoliadau Cymhorthdal Incwm er mwyn cynyddu'r terfyn cyfalaf isaf, a ddefnyddir, mewn achosion rhagnodedig, ar gyfer cyfrifo hawlogaeth i dderbyn budd-daliadau o dan Gynllun Incwm Isel y GIG (Rheoliad 2(3)).